Comisiwn Coedwigaeth Cymru
Forestry Commission Wales

grantiau a thrwyddedau
grants and licences

COETIROEDD GWELL I GYMRU

BETTER WOODLANDS FOR WALES

CYLCHLYTHYR PERCHNOGION Rhifyn1 – Gorffennaf 2007

Cynnwys:

- Nodyn y Golygydd
- Y Diweddaraf ar CGG
- Golau gwyrdd i gyhoeddi Coetiroedd Gwell i Gymru (CGG)!
- CC Cymru yn lansio grantiau creu coetiroedd CGG
- Newidiadau i weinyddu grantiau
- Gwasanaeth Ar-lein gan Grantiau a Thrwyddedau (GaTh)
- Un cais ar gyfer pob eiddo
- Asiantwyr yn Llofnodwyr
- Am wybod mwy ynglŷn â'r CGG?
- Manylion ar gyfer Cysylltu
- Y Rhifyn Nesaf

Nodyn y Golygydd

Rwy'n falch i'ch croesau i rifyn cyntaf Cylchlythyr Perchnogion Coetiroedd Gwell i Gymru (CGG), cyhoeddiad Comisiwn Coedwigaeth Cymru sydd wedi ei anelu at berchnogion, asiantau a rheolwyr coetir yng Nghymru sydd â diddordeb yng nghynllun newydd CGG. Cynhyrchir y cylchlythyr ddwywaith y flwyddyn a bydd yn ein galluogi ni i ddweud wrthych am yr hyn sy'n digwydd gyda CGG. Croesewir ymateb gennych hefyd ac yn rhifynnau'r dyfodol byddwn yn barod iawn i gynnwys erthyglau ar y pynciau rydych chi'n eu hystyried o bwys.

Y Diweddaraf ar CGG

Lansiwyd CGG yn ystod Ebrill 2006 a chymeradwywyd y cynllun rheolaeth cyntaf ym mis Gorffennaf y flwyddyn honno.

Roedd y nifer a ymunai â'r cynllun yn gyson dros y 12 mis cyntaf; roedd yr hen CGC yn parhau yn agored i geisiadau hyd ddiwedd 2006 a chanolbwyntiodd y diwydiant ar gwblhau'r ceisiadau CGC a oedd ar y gweill a rhoi cynlluniau ailstocio a phlannu newydd ar waith yn ystod y tymor plannu 06/07. Gyda gorffen y busnes hwn mae'r diwydiant wedi newid ei ganolbwyntio fwy a mwy i CGG yn ystod 2007 ac yn awr mae 543 o geisiadau gyda 110 o gynlluniau rheoli yn cael eu paratoi ar hyn o bryd a chymeradwywyd 35 ohonynt. Cymeradwyir tua 3 -5 o gynlluniau bob wythnos a gall y ffigur hwn godi wrth i'r diwydiant ddechrau canolbwyntio ar gymeradwyo cynlluniau mewn pryd ar gyfer tymor plannu 07/08.

Mae a wnelo ceisiadau CGG yn awr â dros 20,000 o hectarau! Mae hyn yn hafal i 2 flynedd o geisiadau am hen gynllun CGC. Y dasg ar gyfer 07/08 yw troi ceisiadau'n gynlluniau rheoli gorffenedig.

Golau gwyrdd i gyhoeddi Coetiroedd Gwell i Gymru (CGG)!

Cafwyd oedi wrth gyhoeddi contractau ar gyfer cynlluniau CGG sydd wedi eu cwblhau, ond erbyn hyn mae'r Cynulliad wedi rhoi caniatâd i ni fynd yn ein blaenau. Y rheswm am yr oedi oedd bod CGG yn rhan o Gynllun Datblygu Gwledig (CDG) 2007-2013 ac mai dim ond yn ddiweddar y cyflwynwyd hwn i'r UE i'w gymeradwyo. Yn hytrach nag aros am gymeradwyaeth gan yr UE, mae llywodraeth newydd y cynulliad wedi penderfynu y dylai cynlluniau amaethyddol a choedwigol a gynhwysir yn y CDG fynd yn eu blaenau.

Byddwn yn cyhoeddi contractau drafft i berchnogion sydd wedi cwblhau cynlluniau rheoli ym mis Awst. Ein nod yw cynnwys 10,000ha o goetiroedd mewn contractau CGG cymeradwy erbyn diwedd mis Mawrth 2008.

CC Cymru yn lansio grantiau creu coetiroedd CGG

Caiff y grantiau plannu newydd ar gyfer CGG eu lansio yn Sioe Amaethyddol Frenhinol Cymru ddydd Mawrth 24 Gorffennaf. Mae'r grantiau wedi'u strwythuro mewn categorïau tebyg i'r grantiau ailblannu, ond maent yn darparu rhai taliadau ychwanegol i greu coetiroedd mewn lleoliadau sy'n cyfrannu at ddatblygu rhwydwaith cynefin. Caiff cost codi ffensys gymorth grant hefyd ar wahân i'r grantiau plannu ar sail ardal. Yn olaf, bydd tâl blynyddol ar gael am ddeng mlynedd oddi wrth Lywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer coetiroedd newydd a blennir ar dir amaethyddol mwy cynhyrchiol. Mae cyfraddau a meini prawf y grantiau ar gyfer y Taliad Tir Wedi Ei Wella yn wahanol i Gynllun Premiwm Coetir Ffermydd, a bydd yn fwy deniadol i lawer o ffermwyr.

Ceir manylion y grantiau plannu newydd yng nghanllaw grant y CGG newydd. Mae dogfen sy'n cymharu'r grantiau newydd â'r hen rai ar gael ar Wefan CC Cymru hefyd. I gael mynediad at y grantiau plannu newydd, bydd yn rhaid i chi fynd drwy'r un broses gynllunio ag ar gyfer coetiroedd sy'n bodoli eisoes.

Os byddwch chi am blannu y gaeaf hwn o dan CGG, bydd yn rhaid i chi gychwyn cynllunio ar fyr o dro fel y gallwn gyhoeddi contractau yn fuan ar ôl i'r broses o sgrinio ceisiadau grant ar gyfer y grantiau plannu newydd gychwyn ym mis Hydref.

Mae angen Rhif Cyferirnod Cwsmer er mwyn i ni gymeradwyo eich Cynllun Rheoli CGG



Newidiadau i weinyddu grantiau

O ganlyniad i weithredu rheolau newydd Cynllun Datblygu Cefn Gwlad Cymru 2007-2013 cafwyd rhai newidiadau gweinyddol.

Er mwyn lleihau'r effaith ar yr adran goedwigaeth bu'r CCC yn gweithio gydag Adran Taliadau Cefn Gwlad Llywodraeth Cynulliad Cymru.

Y cyntaf o'r newidiadau hyn yw'r angen i bob un o dderbynwyr grantiau gael Rhif Cyfeirnod Cwsmer neu (RhCC) unigryw. Cysylltir pob un RhCC â chyfres manylion y talai, a bydd pob taliad grant yn cael ei gyfeirio ato.

Os ydych yn ffermwr sy'n derbyn Taliad Ffarm Unigol neu os ydych yn cymryd rhan mewn cynllun amaeth-amgylchedd, fel Tir Gofal, bydd gennych RhCC yn barod. (Mae'r rhif yn dechrau â'r llythyren A ac mae saith digid yn dilyn: e.e. A0044267)

Os oes gennych RHCC yn barod, anfonwch ef atom fel y gallwn ei gysylltu â'ch cais CGG. Unwaith y bydd eich cais CGG yn cael ei gymeradwyo, bydd grantiau yn cael eu talu i'r talai a nodwyd pan wnaethoch gais am RHCC.

Os nad oes gennych RHCC bydd angen ichi gofrestru am un cyn y gallwn gymeradwyo eich Cynllun Rheoli CGG a rhoi cytundeb grant ichi. Er mwyn cofrestru bydd angen ichi gysylltu â swyddfa ranbarth leol Cynulliad Cymru a gofyn am gopi o'r ffurflenni perthnasol. Ceir fanylion y swyddfeydd isod. Ni all y Comisiwn Coedwigaeth gofrestru ar eich rhan.

Gellir cyrchu GaTh CGG Ar-lein ar
www.eforestry.gov.uk

Adeiladau'r Llywodraeth Penrallt CAERNARFON Gwynedd LL55 1EP Ffôn. 01286 674 144	Adeiladau'r Llywodraeth Heol Ddwyreiniol y Spa LLANDRINDOD Powys LD1 5HA Ffôn. 01597 823 777	Adeiladau'r Llywodraeth Teras Picton CAERFYRDDIN Sir Gaerfyrddin SA31 3BT Ffôn. 01267 225 300

Gwasanaeth Ar-lein gan Grantiau a Thrwyddedau (GaTh)

Mae CCC yn annog perchnogion a rheolwyr coetir i gymryd mantais lawn o Wasanaeth Ar-lein Grantiau a Thrwyddedau Comisiwn Coedwigaeth Cymru sy'n gweinyddu cynllun grant CGG.

Wedi ei gynllunio â'r defnyddiwr yn cael ystyriaeth lawn, mae nifer o nodweddion i'r system a fydd o fudd i'r asiantwyr a'r perchnogion tir fel ei gilydd gan hwyluso rheolaeth eu cytundebau CGG unwaith iddynt gael eu cymeradwyo.

Mae'r llwybr at gofrestru drwy gyfrwng ein gwefan ac ar ôl cwblhau neges un broses gofrestru syml anfonir neges e-bost atoch yn cadarnhau enw defnyddiwr a chyfrinair a fydd yn eich galluogi i gyrchu'r system ar unrhyw adeg a fo'n gyfleus ichi.

Prif nodweddion y gwasanaeth hwn yw bod y perchennog neu'r asiant yn gallu dilyn datblygiad y cynllun rheoli ar-lein wrth iddo gael ei baratoi. Unwaith y bydd y cynllun yn cael ei gymeradwyo byddant yn gallu gwneud cais am newidiadau, rheoli eu cynllun gan gynnwys adroddiadau ar y pryd a gwneud cais ar-lein.

I gofrestru gallwch fynd at wefan Comisiwn Coedwigaeth Cymru drwy ddefnyddio'r cyswllt www.eforestry.gov.uk

Neu gallwch fynd i'r adran Grantiau a Thrwyddedau, clicio ar y cyswllt ochr chwith ar frig y ddewislen, GaTh Ar-lein. O'r fan hyn ewch i lawr i waelod y dudalen a dewis mynd at Gwasanaeth Ar-lein GaTh. Bydd y dewis cyntaf sydd wedi ei restru, Gwasanaeth GaTh Ar-lein - i wneud cais am grant ar-lein yn eich tywys at Wasanaeth Ar-lein GaTh ac yno byddwch yn gallu dewis cliciwch yna i gofrestru.

Unwaith y byddwch wedi cael mynediad i'r dudalen hon mae yna eicon gymorth ar ffurf marc cwestiwn a fydd yn rhoi mwy o wybodaeth ichi ynglŷn â'r ffordd i symud eich cofrestriad yn ei flaen.

Rhaid ichi ddefnyddio eich ID a'ch cyfrinair yn awr er mwyn cyrchu'r system ac er mwyn cael eich cyfrif i weithredu'n llawn bydd angen ichi anfon neges e-bost at y tîm Gwasanaethau Technegol a rhoi gwybod iddynt eich bod wedi cychwyn fel defnyddiwr newydd. Wedyn bydd y tîm yn eich cysylltu chi â'ch achos a byddwch yn gallu edrych ar fanylion eich cynllun yn llawn.

Un cais ar gyfer pob eiddo

Mae'r rheolau cymhwyster ar gyfer CGG yn gofyn bod yr holl goetiroedd sydd ar un eiddo yn cael eu cyflwyno o dan un cais. Lle bo gan berchennog fwy nag un eiddo, boed y rhain yn goetiroedd, fferm neu ystâd, gallant gyflwyno un cais fesul eiddo.

Cewch y rhifyn diweddaraf o'r cylchlythyr ar we-fan Comisiwn Coedwigaeth Cymru ar www.forestry.gov.uk

Fodd bynnag, gall nifer o goetiroedd bach (llai na 10 hectar yr un) o dan yr un berchnogaeth, sydd yn ardal yr un awdurdod lleol, gael eu cynnwys o dan yr un cais. Os bydd Cynlluniwr Rheolaeth yn teimlo nad yw'n beth synhwyrol cynnwys nifer o goetiroedd bach mewn un cynllun, yna dylai siarad â'r Swyddog Coetiroedd cyn cyflwyno cais.

Asiantwyr yn llofnodwyr

Fel yn achos yr hen Gynllun Grant Coetir, bydd angen i'r asiantwyr hynny sy'n dymuno ymddwyn yn llofnodyddwyr ar ran yr ymgeisydd anfon llythyr wedi ei lofnodi gan yr ymgeisydd at CGG yn caniatáu iddynt wneud hynny.

Gellir cael templed llythyr awdurdodi oddi wrth dîm Gwasanaethau Technegol - manylion ar gyfer cysylltu tua diwedd y rhifyn hwn.

Am wybod mwy ynglŷn â'r CGG?

Cyhoeddir amrywiaeth o wybodaeth gan CCC y gall perchnogion a rheolwyr eu defnyddio i ganfod mwy ynglŷn â CGG. Ymhlith y dogfennau allweddol mae :'CGG - Canllaw i Berchnogion' sy'n cynnig trosolwg o'r cynllun, beth fydd yn ei wneud ar ran y perchennog a beth yw rwymedigaethau'r perchennog, a; Canllaw Grantiau CGG sy'n cynnig amlinelliad o'r grantiau sydd ar gael. Mae cyfres o ddogfennau 'Dulliau o' yn esbonio dulliau'r CGG o fynd i'r afael â nifer o faterion fel rheoli coetiroedd cynhenid, y defnydd cymdeithasol i goetiroedd a choedwriaeth coetiroedd. Y dull gorau o gael hyd i'r rhain yw drwy lyfrgell gyfeirio'r CGG ar www.forestry.gov.uk/forestry/infd-6upk3s neu gellir cysylltu â Gwasanaethau Cwsmeriaid am gopiau papur.

Manylion ar gyfer Cysylltu

- Ymholiadau cyffredinol CGG: Ffôn 0845 604 0845 neu logio ar www.forestry.gov.uk/wales
- Tîm Gwasanaethau Technegol: E-bost bww.ts@forestry.gsi.gov.uk
- Gwasanaeth Ar-lein GaTh: Cyswllt www.eforestry.gov.uk
- Llyfrgell Gyfeirio CGG: www.forestry.gov.uk/forestry/infd-6upk3s
- Awgrymiadau ar gyfer rhifynnau yn y dyfodol: sam.davies@forestry.gsi.gov.uk

Y Rhifyn Nesaf

- Rhifyn 2 – Rhagfyr 2007

Mae'r rhifyn diweddaraf ar gael ar wefan Comisiwn Coedwigaeth Cymru www.forestry.gov.uk

Comisiwn Coedwigaeth Cymru
Forestry Commission Wales